

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Gwersyllt Dental Care

Dyddiad arolygu: 26 Mehefin
2018

Dyddiad cyhoeddi: 27 Medi 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	25

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Gwersyllt Dental Care yn 2 y Stryd Fawr, Gwersyllt, Wrecsam LL11 4LA.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Gwersyllt Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff , cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a ddarperir
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod systemau effeithiol ar waith i gefnogi rheolwyr ac arweinwyr y practis yn gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ac roeddent yn amlwg yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rheoli meddyginiaethau
- Offer radiograffig
- Cynnal archwiliadau o gofnodion a phelydrau-x cleifion

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Gwersyllt Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Wrecsam.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, derbynnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Gwersyllt Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a bod ganddo staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cwblhawyd y mwyafrif o'r holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion ar yr holiaduron mae:

"Mae'r staff i gyd yn hyfryd. Mae'n drueni nad oeddwn wedi dod o hyd i bractis deintyddol fel hwn flynyddoedd yn ôl. Ni allwn ofyn am well gwasanaeth ac mae'r gofal yn ardderchog"

"Rwyf wedi gwerthfawrogi'r gofal a'r cymorth gan y tîm. Rwyf bob amser wedi cael fy ngweld yn gyflym iawn mewn argyfwng. Ni fyddwn yn mynd at ddeintydd arall"

"Nid oeddwn wedi mynd at y deintydd ers tua 10 mlynedd felly roedd yn gam mawr i mi drefnu apwyntiad. O'r alwad ffôn gyntaf roedd y staff yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus; Roeddwn mor nerfus ar y dechrau ond rwy'n iawn erbyn hyn ac mae hynny'n ddiolch i'r holl dîm yma. Maent yn wych, allwn i ddim diolch digon iddyn nhw!"

“Practis gofalgar iawn. Mae staff y dderbynfa bob amser yn gwrtais ac yn gyfeillgar. Mae’r deintydd bob amser yn amyneddgar ac yn gyfeillgar”

Cadw’n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd digon o wybodaeth bwrpasol ar gael am hybu iechyd deintyddol, a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth a allai eu helpu i ofalu am iechyd y geg. Roedd posteri a thafleuni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol ac iechyd y geg.

Cadarnhaodd pob un o’r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a’u dannedd yn iach.

Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o’r cleifion a gwblhaodd holiadur o’r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â’r practis.

Roedd gan y practis drefniadau i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys ardaloedd lle gallai cleifion gael sgysiau preifat â’r staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu hateb yn breifat, allan o glyw cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal.

Dywedodd y mwyafrif o’r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn cael eu hysbysu am gost eu triniaeth cyn iddynt gael unrhyw driniaeth a dywedodd cleifion wrthym eu bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth wedi cael ei chyfrifo.

Nodwyd bod gwybodaeth am brisiau ar gael i’w gweld yn y dderbynfa a oedd yn golygu y gallai cleifion gael gwybodaeth am gost bosibl eu triniaeth.

Yn ogystal, roedd tystiolaeth bod cynlluniau ac opsiynau triniaeth wedi’u nodi mewn sampl o gofnodion cleifion a welwyd gennym. O ganlyniad, roedd cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardal aros hefyd. Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a gallai cleifion fynd â chopi adref gyda nhw.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gall rhai aelodau o staff y practis gyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol bob amser a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa, roedd i'w glywed ar neges y peiriant ateb, ac roedd i'w weld yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion ac roeddent yn cael eu cadw'n dda iawn. Roedd pob opsiwn triniaeth wedi'i gofnodi a gofynnwyd i bob claf am gydsyniad i driniaeth.

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cydraddoldeb penodol ar waith.

Mae'r practis yn ymestyn dros ddau lawr ac mae'n gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd. Er bod y deintyddfeydd wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf, mae'r practis wedi gosod sedd godi sy'n golygu y gall cleifion ag anawsterau symudedd neu ddefnyddwyr cadair olwyn gyrraedd yr ystafelloedd triniaeth a'r ardal aros ar y llawr cyntaf.

Roedd ardal y dderbynfa, ynghyd â'r toiledau, yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn ac roeddent yn lân ac roedd arwyddion clir. Roedd toiledau'r staff hefyd yn lân ac yn daclus.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn gwneud cwyn neu godi pryder wedi'u harddangos yn amlwg yn yr ardal aros. Fodd bynnag, nid oedd yr hysbysiad yn cynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, fel yr awdurdod cofrestru. Gwelsom hefyd fod y weithdrefn yn cyfeirio at Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Tynnwyd sylw'r staff at hyn a gwnaethant ddiwygio'r hysbysiad ar unwaith yn ystod ein harolygiad.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis system i gofnodi pryderon a chwynion ffurfiol. Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu trafod a'u datrys fel rhan o sgrymiau beunyddiol y practis. Fodd bynnag, ni chadwyd unrhyw gofnodion. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod canolog o unrhyw bryderon anffurfiol er mwyn nodi unrhyw themâu. Cytunodd y practis i wneud hyn ar unwaith.

Gwnaethom drafod system y practis i gael adborth gan gleifion; mae'r practis yn gwneud hyn drwy ddarparu holiaduron i gleifion unwaith y flwyddyn. Gall cleifion gyflwyno eu hadborth yn ddiennw. Ar ôl dadansoddi'r adborth, caiff y manylion eu trafod â'r tîm deintyddol cyfan. Gall cleifion hefyd adael adborth ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o'r adborth yn yr ardal aros / derbynfa, er mwyn dangos i gleifion sy'n ymweld bod y practis yn gweithredu ar adborth ac yn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Dywedodd y practis wrthym y bydd blwch sylwadau hefyd ar gael i gleifion gyflwyno unrhyw adborth, awgrymiadau a/neu sylwadau.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda, gan sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a chleifion.

Roedd y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Fodd bynnag, yn ein barn ni, roedd angen gwneud rhai gwelliannau i'r ffordd roedd meddyginiaethau yn cael eu rheoli ac i'r offer radiograffig.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw rwystrau amlwg. Gwelsom nad oedd un o'r biniau clinigol a oedd yn cael ei storio y tu allan wedi'i gloi. Dywedodd y practis wrthym ei fod wedi hysbysu'r contractwyr gwastraff am hyn a chafodd bin newydd ei ddsbarthu yn ystod yr arolygiad.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled neillryw at ddefnydd cleifion ac un at ddefnydd y staff. Roedd arwyddion i'r cyfleuster ac roedd yn ymddangos yn lân iawn. Fodd bynnag, nid oedd bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn y cyfleuster i'r staff.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) yn cael eu cynnal yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân ar gael ym mhob rhan o'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion yr allanfeydd argyfwng i'w gweld yn glir ac roedd y poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn amlwg hefyd.

Nodwyd gennym fod angen i lyfr damweiniau'r practis gael ei ddisodli gan lyfr 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus'

(RIDDOR) sy'n cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Archebodd y practis lyfr damweiniau RIDDOR newydd yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod yr holl gemegion yn cael eu storio'n ddiogel ac nad oedd unrhyw gemegion yn cael eu gadael mewn ardaloedd cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o daflenni data yn ymwneud â Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Roedd gan y practis system i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i ddioli a'i osod yn y bagiau / cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir. Fodd bynnag, argymhellwyd gennym y dylai'r practis drefnu i'r bin gwastraff (clinigol) peryglus sydd wedi'i leoli yn yr iard gael ei glymu wrth y wal neu'r llawr tra'n aros iddo gael ei gasglu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn cael ei ddarparu yn y cyfleusterau i'r staff.

Sicrhau bod y bin gwastraff peryglus yn cael ei glymu wrth y wal neu'r llawr.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dadheintio) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05¹. Roedd y cyfleuster yn lân, yn glir rhag rhwystrau, yn drefnus ac yn cynnwys offer priodol. Fodd bynnag, gwelsom ychydig o ddifrod i'r llawr mewn rhai manau a'r grisiau sy'n arwain i mewn i'r ystafell. Dywedodd y practis wrthym fod cynlluniau ar y gweill i adleoli'r ystafell ddadheintio fel rhan o gynlluniau adnewyddu'r practis. Hyd nes bod y gwaith adnewyddu yn cael ei wneud, argymhellwn fod y practis yn trefnu i unrhyw ran o'r llawr sydd wedi'i

¹ Dadheintio mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol

difrodi gael ei thrwsio a'i selio ar yr ymylon er mwyn helpu i lanhau'r llawr yn effeithiol.

Dangosodd y staff y broses ddadheintio i ni a gwelsom fod y gweithdrefnau a ddilynir i lanhau, sterileiddio a storio offerynnau yn cyd-fynd â chanllawiau arfer gorau.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis wedi cynnal archwiliadau o reoli heintiau yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi defnyddio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05), sy'n gosod y safon ar gyfer arferion dadheintio a rheoli heintiau mewn deintyddfeydd yng Nghymru.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau da ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn diogelu cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd fod offerynnau deintyddol yn cael eu storio a'u symud yn unol â'r polisi dadheintio cyfredol.

Gwelsom fod asesiadau risg o glefyd y lleng filwyr wedi cael eu cynnal gan asiantaeth allanol a gwelsom fod pob cam gweithredu wedi cael ei gymryd. Fodd bynnag, roedd yn bryd adnewyddu'r asesiadau risg a gwnaethom gynghori'r practis i adolygu'r rhain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod y llawr a'r gris i mewn i'r ystafell ddadheintio yn cael eu trwsio a'u selio ar yr ymylon.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol ymhlith cleifion ac roedd y rhain wedi'u harddangos yn yr ardaloedd perthnasol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi cael yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn digwydd yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis system i archwilio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio. Gallem weld bod y practis wedi cymryd camau priodol i gael cyffuriau newydd yn lle rhai nad oeddent yn gyfredol mwyach. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd blwch y rhestr wirio wythnosol wedi cael ei lofnodi gan yr aelod o staff a oedd yn cynnal y gwiriadau. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod blwch y rhestr wirio yn cael ei lofnodi bob wythnos a chytunodd y practis i wneud hynny. Argymhellwyd

hefyd y dylai'r practis adolygu a diweddarau taflen gynnwys yr offer argyfwng er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol.

Gwelsom nad oedd dim adrenalin ychwanegol, dim bag dadebru i blant a dim masg ocsigen i oedolion / plant â darpariaeth wrth gefn ar gael yn yr offer argyfwng a ddelir gan y practis. Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r offer argyfwng ar unwaith yn dilyn yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR) diweddaraf ac roedd un aelod o staff y practis wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Adolygu a diweddarau taflen gynnwys yr offer argyfwng er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn dal gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y deintyddfeyd a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch cleifion. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus ac yn daclus. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai eitemau rhydd yn cael eu storio mewn droriau yn y deintyddfeydd (e.e. swabiau a blaenau sugnwyr). Argymhellwyd i'r practis y dylai pob eitem rydd fod dan orchudd neu wedi ei storio yn ei deunydd pecynnu gwreiddiol.

Roedd yr holl offer radiolegol mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel yn y ddwy ddeintyddfa. Fodd bynnag, argymhellwyd y dylid diweddarau'r rheolau lleol er mwyn nodi pwy sydd wedi cael awdurdod i ddefnyddio'r peiriannau.

Roedd gan y practis beiriant Tomograffi Gyfrifiadurol paladr côn (CBCT) mewn ystafell ar wahân. Mae sganiwr CBCT yn defnyddio techneg delweddu meddygol sy'n cynnwys tomograffi gyfrifiadurol pelydr-X lle mae'r pelydrau-X yn ddargyfeiriol, gan ffurfio côn. Gwelsom nad oedd unrhyw reolau lleol yn cael eu harddangos. Argymhellwyd i'r practis y dylai ddatblygu ac arddangos y rheolau lleol ar gyfer y sganiwr CBCT ynghyd â chyfarwyddiadau gweithredu clir.

Edrychwyd ar y dystysgrif gosod ar gyfer y sganiwr CBCT ac nid oedd yn glir p'un a oedd angen leinin plwm ar y drws i'r ystafell. Tynnwyd sylw'r practis at hyn a chadarnhaodd ar lafar nad oes angen leinin plwm ar y drws. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddogfennaeth ar gael i gadarnhau hyn. Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r sganiwr CBCT ar unwaith ar ôl yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Dywedodd y practis wrthym nad oedd unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau o belydrau-X wedi cael eu cynnal.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o staff clinigol sy'n ymwneud â gwaith pelydr-X wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio (IR(ME)R).

Yr hyn sydd angen ei wella

Sicrhau bod unrhyw eitemau rhydd mewn droriau yn y deintyddfeydd (e.e. swabiau a blaenau sugnwyr) dan orchudd neu wedi'u storio yn eu deunydd pecynnu gwreiddiol.

Sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu diweddarau ar gyfer y peiriannau pelydr-X er mwyn nodi pwy sydd wedi cael awdurdod i'w defnyddio.

Sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu datblygu a'u harddangos ar gyfer y sganiwr CBCT ynghyd â chyfarwyddiadau gweithredu clir.

Sicrhau bod archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau rheolaidd yn cael eu cwblhau ar gyfer y peiriannau pelydr-X a'r sganiwr CBCT.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis, megis; rhagnodi gwrthfotigau, croes-heintio, clefyd y lleng filwyr, adborth cleifion ac iechyd a diogelwch.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Wrth drafod â'r staff, dywedwyd wrthym fod staff clinigol yn cymryd rhan mewn adolygiadau gan gymheiriaid yn rheolaidd sy'n cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i gleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw cofnod o'r holl adolygiadau clinigol.

Dyweddodd y practis wrthym fod cynlluniau eisoes ar waith i'r practis hunanasesu gan ddefnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Gwelsom dystiolaeth bod y practis eisoes wedi cael yr hyfforddiant perthnasol gyda Deoniaeth Cymru. Adnodd hunanwerthuso yw hwn sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar y ffordd y mae'n gweithio ac yn galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn ystod o feysydd.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi diogelu data ar waith. Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw o bob ffeil electronig yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gudd bob amser.

Cadw cofnodion

Cafodd sampl o gofnodion cleifion pob deintydd ei hadolygu. Ar y cyfan, roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol da yn gyffredinol, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant cleifion. Fodd bynnag, gwelsom rai anghysondebau o ran lefel y manylion a gofnodir yng nghofnodion unigol cleifion rhwng y deintyddion.

O ystyried yr amrywiadau a welwyd yng nghofnodion cleifion, byddai'n ddoeth i'r practis archwilio cofnodion cleifion yn rheolaidd fel rhan o'i broses adolygu gan gymheiriaid.

Gwnaethom hefyd archwilio sampl o gofnodion cleifion yr hylenydd a gwelsom dystiolaeth bod cofnodion ardderchog yn cael eu cadw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cynnal archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis hwn yn cael ei redeg yn dda a bod ganddo ymrwymiad cryf i fanylder a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n fedrus.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd ac roedd yn effeithlon ac yn gymwys yn ei rôl. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers peth amser, roedd ganddynt berthynas dda â'i gilydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau a gwelsom fod perthynas dda iawn rhyngddynt.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff a oedd wedi'u cwblhau ac roedd y rhain yn drefnus. Gallai'r holl staff gael gafael ar bolisiâu a gweithdrefnau.

Gwelsom fod amrywiaeth eang o hyfforddiant ar gael i'r staff, sy'n bodloni'r gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Gwelsom dystiolaeth hefyd o arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o staff a oedd yn gweithio yn y practis.

Edrychwyd ar y polisiau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith a gwelsom eu bod yn adlewyrchu ymarfer gwirioneddol. Roedd pob polisi a gweithdrefn yn cynnwys dyddiad adolygu a/neu fanylion rheoli fersiynau ynghyd â llofnodion y staff yn dangos eu bod wedi darllen ac wedi deall y rhain. Fodd bynnag, gwelsom fod cyfeiriadau mewn rhai polisiau a gweithdrefnau at Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cytunodd y practis i ddileu pob cyfeiriad at y gwledydd hyn yn yr holl ddogfennaeth.

Gwelsom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt mewn argyfwng ac amseroedd agor y practis wrth fynedfa'r safle. Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion i'w gweld yn glir hefyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd dim adrenalin ychwanegol, dim bag dadebru i blant a dim masg ocsigen i oedolion / plant â darpariaeth wrth gefn ar gael yn yr offer argyfwng a ddelir gan y practis.	Roedd hyn yn golygu y byddai oedolion a phlant mewn perygl pe bai argyfwng.	Tynnwyd sylw'r staff at hyn, a drefnodd i'r eitemau gael eu prynu ar unwaith.	Archebodd y staff yr eitemau ar unwaith ar ddiwrnod ein harolygiad i'w dosbarthu drannoeth.
Dim dogfennaeth ysgrifenedig ar gael i roi tystiolaeth nad oedd angen leinin plwm ar y drws i mewn i ystafell y sganiwr CBCT.	Roedd hyn yn golygu y gallai pelydrau-X a phelydrau gama ymdreiddio drwy'r drws o bosibl.	Cawsom sicrwydd llafar gan y practis nad oedd angen leinin plwm ar y drws a chysylltwyd â'r gosodwyr i gael cadarnhad. Cawsom sicrwydd gan y practis na fyddai'r sganiwr CBCT yn cael ei ddefnyddio nes ei fod wedi cael cadarnhad.	Cysylltodd y practis â'r gosodwyr yn ystod yr arolygiad ac anfonwyd cadarnhad ysgrifenedig gan y gosodwyr ymlaen at AGIC yn union ar ôl yr arolygiad a oedd yn cadarnhau nad oes angen leinin plwm ar y drws a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Gwersyllt Dental Care

Dyddiad arolygu: 26 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gwersyllt Dental Care

Dyddiad arolygu: 26 Mehefin 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dd/G				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Sicrhau bod bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn cael ei ddarparu yn y cyfleusterau i'r staff.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae ail fin gwaredu deunyddiau misglwyf wedi cael ei archebu a dylai gael ei ddsbarthu yr wythnos nesaf	Rachel Jones	Wythnos
Sicrhau bod y bin gwastraff peryglus yn cael ei glymu wrth y wal neu'r llawr.		Gwnaed hyn wythnos ar ôl yr arolygiad.	Rachel Jones	
Sicrhau bod y llawr a'r gris i mewn i'r ystafell	2.4 Atal a Rheoli	Caiff y rhain eu trwsio a'u selio fel mesur	Rachel Jones	Pythefnos

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddadheintio yn cael eu trwsio a'u selio ar yr ymylon.	Heintiau a Dadheintio	dros dro yr wythnos ar ôl nesaf. Caiff yr holl ystafell ddadheintio ei hadleoli i fyny'r grisiau o fewn 9 mis.		
Adolygu a diweddaru taflen gynnwys yr offer argyfwng er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Edrychwyd ar y pecyn o gyffuriau brys. Cafodd cyffuriau ac offer eraill eu hychwanegu, ac mae hefyd yn cael ei lofnodi a'i ddyddio'n wythnosol ar ôl cael ei wirio.	Rachel Jones	
Sicrhau bod unrhyw eitemau rhydd mewn droriau yn y deintyddfeydd (e.e. swabiaau a blaenau sugnwyr) dan orchudd neu wedi'u storio yn eu deunydd pecynnu gwreiddiol.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Newidiwyd hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad. Roedd eitemau yn cael eu storio yn eu deunydd pecynnu gwreiddiol, neu eu gosod mewn blychau â chaeadau.	Rachel Jones	
Sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu diweddaru ar gyfer y peiriannau pelydr-X er mwyn nodi pwy sydd wedi cael awdurdod i'w defnyddio.		Gwnaed hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad.	Rachel Jones	
Sicrhau bod y rheolau lleol yn cael eu datblygu a'u harddangos ar gyfer y sganiwr CBCT ynghyd â chyfarwyddiadau gweithredu clir.		Trafodwyd hyn â'n Swyddog Diogelu Ymbelydredd ac rydym yn aros i gael set newydd o reolau.	Rachel Jones	Wythnos
Sicrhau bod archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau rheolaidd yn cael eu cwblhau ar		Mae archwiliadau bob amser wedi cael eu cynnal ar y peiriant pelydr-X. Wrthi'n	Rachel Jones	6 wythnos

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gyfer y peiriannau pelydr-X a'r sganiwr CBCT.		gweithio ar archwiliad ar gyfer y sganiwr CBCT. Caiff hwn ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi ac wedyn caiff y ddau eu harchwilio'n flynyddol.		
Cynnal archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid.	3.5 Cadw cofnodion	Wrthi'n gweithio ar archwiliad ar gyfer cofnodion cleifion a bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Medi. Yna, caiff hyn ei wneud bob blwyddyn.	Rachel Jones	6 wythnos
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dd/G				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Rachel Jones

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 17.08.2018